Adroddiad ar

# Ysgol Sarn Bach

Sarn Bach
Pwllheli
Gwynedd
LL53 7LF

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Sarn Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Sarn Bach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 24 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 20 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 1 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 16.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 65.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/10/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/02/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Sarn Bach yn gymuned ofalgar lle mae lles disgyblion a'u profiadau dysgu wrth wraidd y ddarpariaeth. Caiff yr ysgol ei harwain gan bennaeth sydd â gweledigaeth glir i greu amgylchedd diogel, croesawgar a chefnogol i ddisgyblion a holl gymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel, ac mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol a'r cartref yn gryfder amlwg.

Mae staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn ymroddedig i ddarparu profiadau dysgu cynhwysol i ddisgyblion. Mae llawer o aelodau staff yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain ac yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion yr ardal i ddatblygu eu harferion. Er bod trefniadau hunanwerthuso yn cael eu gweithredu'n addas, nid yw'r prosesau bob amser yn nodi'n ddigon clir yr agweddau penodol o'r addysgu sydd angen eu gwella. O ganlyniad, nid yw camau gwella bob amser yn cael effaith fwriadus ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae'r staff yn llwyddo'n dda i feithrin ymddygiad cadarnhaol ac ymdeimlad cryf o berthyn i ddisgyblion. Mae disgyblion yn barchus ac yn dangos gofal tuag at ei gilydd. Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn llwyddiannus, sydd, yn ei dro, yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu'n siaradwyr hyderus erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn cael eu hannog yn gyson i ddefnyddio'r Gymraeg yn annibynnol wrth eu chwarae a'u dysgu.

Mae medrau llythrennedd a mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, ac mae cyfleoedd darllen, digidol a chreadigol yn cefnogi eu hymgysylltiad yn fedrus. Yn gyffredinol, nid yw adborth gan athrawon bob amser yn darparu digon o her i helpu disgyblion i wella cynnwys ac ansawdd eu gwaith. Yn ogystal, mewn ychydig o wersi, mae staff yn gor-arwain y dysgu sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n  ddysgwyr annibynnol, yn enwedig y disgyblion ieuengaf.

Mae trefniadau cefnogi disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gryf, ac mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle teg i lwyddo mewn amgylchedd cynhwysol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso i adnabod a gweithredu ar flaenoriaethau ac agweddau penodol o'r addysgu a dysgu

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf, gan gynnwys eu cefnogi i fod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol

A3 Gwella adborth athrawon i gefnogi disgyblion i wella cynnwys ac ansawdd eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Sarn Bach yn gymuned ddysgu gynhwysol, ofalgar a chefnogol lle mae lles disgyblion a safonau dysgu yn ganolog i waith pob aelod o'i chymuned. Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol gyda gweledigaeth glir a chydlynol sy'n seiliedig ar sicrhau lles cadarn i bob disgybl, ynghyd â darparu profiadau dysgu cyfoethog ac ysgogol. Mae'r weledigaeth hon wedi'i rhannu'n effeithiol gyda holl bartneriaid yr ysgol. O ganlyniad, mae staff yn meithrin ymdeimlad clir o bwrpas a gwerthoedd cyffredin sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae'r pennaeth yn arddel gwerthoedd cymdeithasol a moesol cadarn, ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhain yn cael eu gwreiddio'n gyson yng ngwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at greu amgylchedd cartrefol, croesawgar a diogel lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae perthnasoedd cryf a chynhyrchiol yn cael eu meithrin rhwng yr ysgol a'r cartref yn llwyddiannus, sy'n cefnogi lles a dysgu disgyblion yn effeithiol.

Mae staff yn ymroddgar ac yn cydweithio'n agos i sicrhau profiadau dysgu bwriadus a chynhwysol sy'n seiliedig ar syniadau'r disgyblion. Mae pob aelod o'r tîm addysgu yn ymgymryd â rolau arwain mewn meysydd penodol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Mae'r gwaith tîm cryf hwn yn galluogi'r ysgol i weithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol. Maent yn cydweithio'n dda ag ysgolion y clwstwr sy'n arwain at sicrhau cyfleoedd da i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, er bod arweinwyr yn gweithredu trefniadau hunanwerthuso addas, nid ydynt bob amser yn nodi'n ddigon miniog yr agweddau penodol o'r addysgu sydd angen eu gwella. Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfyngu ar effaith y camau gwella ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae'r berthynas gadarn rhwng staff a disgyblion yn un o gryfderau nodedig yr ysgol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd diogel a gofalgar, sy'n meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i ddisgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o bwy maent yn gallu troi atynt os bydd pryderon yn codi. Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarnhaol, ac maent yn dangos parch cyson tuag at ei gilydd, at staff ac at ymwelwyr. Mae'r gofal a'r cyfrifoldeb a ddangosir gan y disgyblion hynaf at eu cyfoedion ieuengaf yn nodwedd gryf o ddiwylliant yr ysgol.

Mae staff yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac maent yn defnyddio dulliau trochi yn fedrus wrth gyflwyno geirfa gyfoethog a phatrymau iaith cywir i ddisgyblion. O ganlyniad, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu i fod yn siaradwr Cymraeg hyderus ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Er hynny, nid yw oedolion

bob amser yn annog disgyblion i ddefnyddio eu medrau Cymraeg yn gyson wrth chwarae a gweithio’n annibynnol yn eu hardaloedd dysgu. Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion atgyfnerthu a chymhwyso eu medrau yn ddigymell.

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol yn y ddwy iaith. Mae gwaith cydweithredol diweddar gyda ysgolion y dalgylch wedi cryfhau’r ddarpariaeth darllen, gan gynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddarllen testunau mewn grwpiau, yn annibynnol ac ar-lein. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a medrau darllen y disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol, ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn ysgrifennu’n gynyddol hyderus mewn ystod o ffurfiau pwrpasol wrth iddynt symud drwy’r ysgol.

Mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion yn rheolaidd, gan roi ffocws clir ar gywirdeb iaith. Er hyn, nid yw adborth athrawon yn darparu digon o her i ddisgyblion ysgogi gwelliannau ystyrlon yn eu gwaith. O ganlyniad, mae tuedd i ddisgyblion ganolbwyntio ar gywiro camgymeriadau ieithyddol yn unig, heb wella cynnwys nac ansawdd eu gwaith.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn dangos mwynhad yn eu dysgu ac yn ymateb yn ddeallus i’w tasgau. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn canolbwyntio am gyfnodau priodol. Er hyn, mewn rhai achosion, mae gor-arwain gan oedolion yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’n ddysgwyr annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu. Yn gyffredinol, nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn eu hannog i ddysgu’n gynyddol gweithredol ac i archwilio’n bwrpasol mewn profiadau dysgu cyfoethog**.**

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu’n dda. Mae arweinwyr wedi manteisio ar waith rhwydweithio effeithiol i wella cynllunio a darpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y meysydd dysgu . Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd i staff yn cryfhau eu hyder i addysgu ystod o fedrau i ddisgyblion, yn enwedig wrth ddefnyddio offer digidol i gyfoethogi’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae disgyblion, yn enwedig ar frig yr ysgol, yn elwa ar brofiadau digidol diddorol sy’n annog eu hymgysylltiad â’u dysgu yn yr ysgol a chartref.

Mae staff yn sicrhau darpariaeth ysgogol ar gyfer datblygu medrau creadigol, corfforol, diwylliannol ac ysbrydol disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arbrofi’n greadigol, i berfformio, ac i ddatblygu dealltwriaeth gynyddol o’u hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth Gymreig. Mae’r ddarpariaeth gorfforol gadarn, sy’n cynnwys gweithgareddau nofio, rhedeg a beicio, yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygiad corfforol a lles emosiynol y disgyblion.

Mae trefniadau cefnogi disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gryf. Mae systemau olrhain cynnydd effeithiol yn galluogi ymyrraeth gynnar i

ddisgyblion, ac mae mwyafrif y disgyblion ADY yn gwneud cynnydd perthnasol tuag at eu targedau unigol.

Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn weithredol yn yr ysgol. Maent yn cymryd rhan mewn ystod briodol o weithgareddau hunanwerthuso ac yn hyrwyddo’r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr a staff yn ymwybodol o anghenion teuluoedd ac yn sicrhau bod holl weithgareddau’r ysgol yn hygyrch i bob disgybl. Un o gryfderau’r ysgol yw’r modd mae staff yn cyfathrebu a chroesawu’r rhieni a’r gymuned ehangach i’r ysgol er mwyn trafod bywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion y cyngor ysgol yn cynnig cefnogaeth ymarferol trwy rannu gwisg ysgol a sicrhau bod ffrwyth am ddim ar gael yn ddyddiol i bawb.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026